



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgyrch Gyfathrebu ar Droseddau Casineb 2020 - Papur Trafod

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid o Gronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd er mewn ychwanegu at ei chynllun cyfathrebu ar gydraddoldeb a chynhwysiant. Ein bwriad yw comisiynu ymgyrch gyfathrebu newydd ar droseddau casineb yn ystod 2019/2020, sy'n ceisio atal a lliniaru effeithiau troseddau casineb drwy Gymru. Er mwyn llywio ein dull gweithredu, rydym wedi llunio'r papur trafod hwn i ystyried beth a olygir gan ymgyrch effeithiol ynghylch troseddau casineb yng Nghymru.

1. Beth yw prif nod yr ymgyrch?

Prif nodau'r ymgyrch yw lleihau nifer y troseddau a'r digwyddiadau casineb yng Nghymru a meithrin cydlyniant cymunedol.

2. Amcanion posibl yr ymgyrch

Annog pobl i adrodd am droseddau casineb (yn ddiodefwr a/neu'n dystion)

Cynyddu dealltwriaeth o drosedd gasineb fel trosedd

Cynyddu dealltwriaeth o beth yw trosedd gasineb

- a) Amryw ffurfiau troseddau casineb (corfforol, ar lafar, ar lein etc.)
- b) Y nodweddion gwarchoddedig sy'n cymell troseddau casineb (hynny yw nid dim ond hil/ffydd ond hefyd cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol ac anabledd).

Cynyddu dealltwriaeth o wasanaethau cymorth i ddiodefwr.

Annog cydlyniant cymunedol

Delio â stereoteipio mewn perthynas â hil, ffydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol ac anabledd

3. Pwy ddylai fod yn gynulleidfa darged i'r ymgyrch?

- Dioddefwyr

Mae annog dioddefwyr i adrodd ar droseddau a digwyddiadau casineb yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. A ddylai'r ymgyrch ganolbwyntio ar godi hyder y dioddefwyr a thynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael?

A yw'r dull gweithredu hwn yn ddigon arloesol?

A yw canolbwyntio ar y dioddefwr yn adrodd ar drosedd yn rhoi gormodo faich ar y dioddefwr yn hytrach na'r troseddwr?

Yn 2017-18, cofnodwyd 3,370 o droseddau casineb ar draws pedair ardal yr Heddlu yng Nghymru, ac o'r troseddau hyn:

- roedd 2,298 (68%) ohonynt yn droseddau casineb a oedd yn ymwneud â hiliaeth;
- roedd 670 (20%) ohonynt yn droseddau casineb a oedd yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol;
- roedd 198 (6%) ohonynt yn droseddau casineb a oedd yn ymwneud â chrefydd;
- roedd 308 (9%) ohonynt yn droseddau casineb a oedd yn ymwneud ag anabledd
- roedd 64 (2%) ohonynt yn droseddau casineb a oedd yn ymwneud â phobl drawsryweddol

A yw'r ystadegau hyn yn awgrymu y dylem roi mwy o bwyslais ar ddiodeffwyr troseddau casineb hiliol, ynteu a ddylem roi mwy o ffocws ar yr elfennau eraill i gydnabod y gallai'r ystadegau fod yn isel oherwydd nad yw'r diodeffwyr yn adrodd am y troseddau?

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw weithgarwch sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar ddiodeffwyr troseddau casineb?

- **Troseddwyr**

Yn y gorffennol, rydym wedi rhoi llawer o bwyslais ar annog diodeffwyr i adrodd am droseddau casineb, ond a ddylai'r ymgyrch hon ganolbwyntio ar achos y broblem a cheisio addysgu darpar troseddwyr casineb? Gallai hyn gynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o'r ffaith y gallai gweithredoedd sy'n deillio o gasineb arwain at erlyniad, a fyddai'n cael effaith negyddol ar fywyd personol yr unigolyn, gan gynnwys bywyd teuluol a statws swydd.
- Amlygu'r effaith ddinistriol ar fywydau diodeffwyr troseddau casineb a'r niwed i gydlyniant cymunedol.
- Cwestiynu'r cymhelliant ar gyfer y gweithredoedd hyn sy'n deillio o gasineb.

Beth yw'r problemau gyda gweithredu fel hyn? Pa mor effeithiol fydd unrhyw ymgyrch arfaethedig o ran dylanwadu ar unigolion sydd â rhagfarnau dwfn i newid eu hymddygiad?

A fydd cyflawnwyr yn gweld Llywodraeth Cymru fel negesydd diduedd neu a fydd ymgyrch o'r fath yn cael ei gweld fel propaganda?

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw weithgarwch sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar droseddwyr casineb?

- **Y rhai sydd yn gweld trosedd gasineb**

A ddylai'r ymgyrch annog tystion i weithredu'n ddiogel pan fônt yn gweld digwyddiad neu drosedd casineb? Gallai hyn gynnwys:

- Annog y rhai sydd yn gweld trosedd o'r fath i fod yn dyst a allai roi tystiolaeth sy'n cefnogi a disgrifiad o'r digwyddiad.
- Annog y rhai sydd yn gweld trosedd o'r fath i hel unigolion eraill a all helpu, fel pobl diogelwch, staff neu bobl eraill.
- Annog y rhai sydd yn gweld trosedd o'r fath i siarad â'r dioddefwyr i weld a ydynt yn iawn.
- Annog y rhai sydd yn gweld trosedd o'r fath i gysylltu â'r heddlu am gefnogaeth.

Mae perygl i unrhyw rai sydd yn gweld trosedd o'r fath mewn unrhyw sefyllfa sy'n gofyn iddynt fynd i'r afael â throseddau casineb. A ydym o bosibl yn annog unigolion i roi eu hunain mewn perygl, neu a yw'r dull gweithredu hwn yn bwysig o ran dangos undod a meithrin cymunedau mwy cydlynus? Mae'n amlwg y byddai'r ymgyrch yn annog ymyrraeth ddiogel yn unig ac nid yn annog y rhai sy'n gweld troseddau casineb i ddelio'n uniongyrchol â'r troseddwr.

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw weithgarwch sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar bobl sy'n gweld troseddau casineb?

- **Cymunedau**

A ddylem ganolbwyntio ar dynnu sylw at y berthynas iach sydd eisoes yn bodoli rhwng cymunedau a'i gilydd ac adeiladu ar hynny? Gallai hyn gynnwys:

Tynnu sylw at orffennol Cymru fel cenedl sy'n croesawu pobl o bob cefndir.

Annog pobl i drafod â'u cymdogion a'u cydweithwyr.


Pwysleisio bod gennym fwy sy'n gyffredin nag sy'n wahanol

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw weithgarwch sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar gydlyniant cymunedol?

4. Pa dôn y dylid ei defnyddio yn yr ymgyrch?

- **Deifiol**

A ddylem ddefnyddio dull mwy uniongyrchol, sy'n defnyddio tactegau sioc i ddangos difrifoldeb troseddau casineb a'r effeithiau negyddol pellgyrhaeddol ar y dioddefwr a'r troseddwr?



Ymgyrch Llywodraeth yr Alban (2018)



Ymgyrch Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2018/19)




Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (2009)


- **Cadarnhaol, yn galw am weithredu**

A oes manteision i gael ymgyrch sy'n canolbwyntio ar neges syml, hollgynhwysol sydd wedi'i chyfeirio at y gynulleidfa gyfan, i fynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru?





Undeb Prifysgol Leeds – Prosiect Adrodd am Droseddau Casineb



Ymgyrch *Let's Fight Racism* y Cenhedloedd Unedig (2011)

WITNESSED HATE IN OUR COMMUNITY?



DON'T LET THEM GET AWAY WITH IT.

REPORTING HATE CRIME IS EASY

- Call 999 in an emergency
- Call 101 to speak to police in your area
- Report what's happened online.

www.reporthatravictimsupport.org.uk

Stonewall
C Y M R U
stonewallcymru.org.uk
@StonewallCymru

Stonewall Cymru (2015)

- **Cefnogol**

A ddylai'r ymgyrch ganolbwyntio ar roi cefnogaeth a chysur i ddiodefwyr?

A ddylem greu ymgyrch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n meithrin dealltwriaeth o effaith bersonol troseddau casineb?


REPORT HATE CRIME ON 101.
IN AN EMERGENCY CALL 999.

**BEING YOU IS NOT A CRIME.
TARGETING YOU IS.**

Abuse because of **who you are**, whether **physical** or **verbal**, is a **criminal offence**.

VERA BAIRD
NEEP AID OF VICTIMS
NORTHUMBRIA POLICE
Proud to Protect

Heddlu Northumbria (2016)



Ymgyrch Let's Hate Hate Heddlu Dyffryn Tafwys (2016)



Heddlu De Swydd Efrog (2017)

- **Llawn empathi**

A ddylem greu ymgyrch sy'n canolbwyntio ar empathi, hynny yw "A fyddet ti'n gadael i hyn ddigwydd os fyddai'n digwydd i dy ferch, dy chwaer, neu dy dad?"